## Rydych wedi derbyn llythyr A4 ar bapur GWYRDD sef ffurflen Gyfathrebu A y Canfasiad.

Darllenwch y ffurflen a sicrhau bod y manylion yn gywir.
Os oes angen i chi wneud unrhyw newidiadau i'r ffurflen, er enghraifft, ychwanegu neu ddileu etholwr bydd angen i chi wneud y canlynol:

- Ewch i www.registersecurely.com/VoG , rhoi eich cod diogelwch 1 a 2 unigryw sydd ar y llythyr A4 a gwneud unrhyw newidiadau.

Nodwch NA fyddwch yn derbyn amlen i ymateb. Bydd angen i chi ymateb yn electronig. Os cewch unrhyw drafferthion i ddefnyddio'r gwasanaeth, ffoniwch 01446 729552 a siarad ag aelod o Dîm y Gofrestr Etholiadol.

Os oes angen i chi ddiwygio eich ffurflen, sicrhewch eich bod yn ymateb erbyn **11 Medi 2024**.

Cofiwch, o ganlyniad i newidiadau i ddeddfwriaeth, gellir nawr ychwanegu plant 14-16 oed i'r Gofrestr yn barod iddynt droi'n 16 oed. Dim ond mewn rhai etholiadau y byddant yn gallu pleidleisio ynddynt, nid pob etholiad.

Mae'r ffordd i wneud cais am bleidleisiau drwy'r post bellach wedi newid. Gallwch nawr ddewis pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy ar gyfer naill ai etholiadau a gedwir yn ôl (Cyffredinol a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu), Datganoledig (Senedd a Lleol) neu bob etholiad. Bydd angen i chi ddarparu rhif yswiriant gwladol ar gyfer pleidleisiau a gedwir yn ôl. Trwy nodi'r ffurflen ganfasio gydag ie neu na ar gyfer pleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy gallwn anfon cais papur am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy atoch. Neu gallwch nawr gwblhau cais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy

ar-lein ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl (Cyffredinol a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu) yn unig drwy fynd i www.gov.uk/gwneud-cais-pleidlais-drwyr-post neu www.gov.uk/gwneud-cais-pleidlais-drwy-ddirprwy . Bydd angen i chi gwblhau cais papur ar gyfer etholiadau Datganoledig (Senedd a Lleol) o hyd.

Bydd unigolyn sy'n methu â rhoi gwybod i ni am newid neu sy'n rhoi gwybodaeth anwir ar ffurflenni'r Canfasiad yn cyflawni trosedd.

Y Preswylydd

Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU
Ffon: 01446 729552
cofrestruetholiadol@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

Awst 2024

Annwyl Preswylydd/Deiliad

## A yw'r wybodaeth ar y gofrestr etholiadol yn gywir ar gyfer y cyfeiriad hwn?

Mae pawb sy'n byw yng Nghymru sy'n 14 oed neu drosodd bellach yn gallu cofrestru i bleidleisio.
Ceir rhagor o wybodaeth am bwy sy'n gymwys i gofrestru i bleidleisio ar dudalen 2.

| *Mae'n **rhaid** i chi ymateb os:* | ***Nid oes** angen i chi ymateb os:* |
|---|---|
| oes unrhyw wybodaeth yn anghywir, neu os oes pobl sy'n gymwys i gofrestru i bleidleisio yn y cyfeiriad hwn nad ydynt wedi'u cynnwys. | yw'r holl wybodaeth yn gywir ac yn cynnwys pawb sy'n gymwys i gofrestru i bleidleisio yn y cyfeiriad hwn. |

Y bobl sydd wedi cofrestru i bleidleisio yn y cyfeiriad hwn.

Cadarnhewch fod pob enw, gan gynnwys unrhyw un dros 14 oed, wedi'i gynnwys ac yn gywir.

| Enw llawn | Cenedligrwydd | 76 oed neu drosodd (wedi'i eithrio rhag gwasanaeth rheithgor) | Pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau Senedd y DU a/neu etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu? | Pleidlais bost neu drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau cynghorau lleol? | Ar y gofrestr agored? (rhagor o wybodaeth ar dudalen 2) |
|---|---|---|---|---|---|
| Nid oes neb wedi cofrestru i bleidleisio ar hyn y bryd yn y cyfeiriad hwn | | | | | |
| Enw Llawn | Cenedligrwydd | ydy/nac ydy | oes/nac oes | oes/nac oes | ydy/nac ydy |
| Enw Llawn | Cenedligrwydd | ydy/nac ydy | oes/nac oes | oes/nac oes | ydy/nac ydy |
| Enw Llawn | Cenedligrwydd | ydy/nac ydy | oes/nac oes | oes/nac oes | ydy/nac ydy |
| Enw Llawn | Cenedligrwydd | ydy/nac ydy | oes/nac oes | oes/nac oes | ydy/nac ydy |

Os bydd angen i chi roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau, y ffordd hawsaf o wneud hyn yw ar-lein. Dim ond ychydig o funudau mae'n ei gymryd.

**1** Ewch i'r wefan
nodwch ddolen we ar gyfer ymateb

**2** Nodwch eich cod diogelwch unigryw
**Rhan 1:** cod diogelwch unigryw
**Rhan 2:** cod diogelwch unigryw

**3** Diweddarwch y wybodaeth am eich aelwyd a'i chyflwyno
Dylech gynnwys enw a chenedligrwydd pawb sy'n byw yn y cyfeiriad hwn